# DEDDF SENEDD AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2020

## EXPLANATORY NOTES

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Tachwedd 2019 ac a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 15 Ionawr 2020. Fe'u paratowyd gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad ar ran Elin Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Ddeddf, i gynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Felly, os yw'n ymddangos nad oes angen esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, ni wneir hynny.

### Rhan 2

### Ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i "Senedd Cymru" neu "Welsh Parliament" ac i wneud newidiadau cysylltiedig eraill. Bydd Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n Ddeddfau Senedd Cymru neu'n Acts of Senedd Cymru. Bydd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n Aelodau'r Senedd neu'n Members of the Senedd. Bydd cyrff a phersonau cysylltiedig, megis Comisiwn y Cynulliad, Clerc y Cynulliad, y Bwrdd Taliadau a'r Comisiynydd Safonau, hefyd yn cael eu hailenwi.

4. Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall, yn benodol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("Mesur 2009"), a Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Mesur 2010"). Mae adran 150A(2) o Ddeddf 2006 yn sicrhau y bydd cyfeiriadau at y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad neu un o Ddeddfau'r Cynulliad mewn deddfwriaeth arall yn adlewyrchu'r enw newydd pan gaiff ei newid.

### *Adran 2 – Ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru neu'n Welsh Parliament*

5. Mae adran 2 yn disodli'r cyfeiriad yn adran 1 o Ddeddf 2006 at "National Assembly for Wales" gyda "Senedd Cymru or the Welsh Parliament" (y cyfeirir ati yng ngweddill Deddf 2006 fel "y Senedd"). Mae paragraff 2(3)(a) o Atodlen 1 i'r Ddeddf yn gwneud diwygiad arall i adran 1 o Ddeddf 2006 o ganlyniad i hyn i'w gwneud yn glir y bydd senedd (yn hytrach na Chynulliad) i Gymru. Fel y nodwyd, bydd Deddf 2006 yn cyfeirio at y senedd fel "the Senedd".

### *Adran 3 – Ailenwi Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Ddeddfau Senedd Cymru*

6. Mae adran 107 o Ddeddf 2006 yn rhoi p#er i'r Cynulliad basio deddfwriaeth mewn perthynas â Chymru o'r enw "Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" neu "Acts of

the National Assembly for Wales" y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel "Acts of the Assembly". Mae adran 3 yn diwygio adran 107(1) o Ddeddf 2006 fel bod deddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei phasio gan y Cynulliad yn dilyn yr adran hon yn dod i rym i'w galw'n "Acts of Senedd Cymru or Deddfau Senedd Cymru" y cyfeirir ati yn Neddf 2006 fel "Acts of the Senedd").

### *Adran 4 – Galw Aelodau yn Aelodau'r Senedd*

7. Mae adran 4 yn darparu y bydd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n Aelodau'r Senedd neu'n Members of the Senedd.

### *Adran 5 – Ailenwi Clerc y Cynulliad yn Glerc y Senedd*

8. Mae adran 5 yn diwygio adran 26(2) o Ddeddf 2006 i ddarparu y bydd Clerc y Cynulliad yn cael ei alw'n Glerc y Senedd neu'n Clerk of the Senedd.

### *Adran 6 – Ailenwi Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gomisiwn y Senedd*

9. Mae adran 6 yn disodli'r cyfeiriad yn adran 27(1) o Ddeddf 2006 at "National Assembly for Wales Commission" gyda "Senedd Commission or Comisiwn y Senedd".

### *Adran 7 – Ailenwi Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gomisiynydd Safonau y Senedd*

10. Mae adran 7 yn disodli'r cyfeiriad at "Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" yn adran 1(1) o Fesur 2009 (mccc 4) ("Mesur 2009") gyda "Comisiynydd Safonau y Senedd".

### *Adran 8 – Ailenwi Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd*

11. Mae adran 8 yn disodli'r cyfeiriad at "Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" yn adran 1(1) o Fesur 2010 gyda'r "bwrdd i'w alw'n Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd". Mae paragraff 2(4) o Atodlen 1 hefyd yn disodli'r cyfeiriad at "National Assembly for Wales Remuneration Board" yn adran 20(8) o Ddeddf 2006 gydag "Independent Remuneration Board of the Senedd".

### *Adran 9 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol*

12. Mae adran 9 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2 o'r Ddeddf i ddeddfwriaeth arall.

## Rhan 3

## Etholiadau

## Estyn yr hawl i bleidleisio

13. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer gostwng yr oedran pleidleisio ac estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i ddinasyddion tramor cymhwysol. Yn bennaf, mae'r Rhan yn cynnwys diwygiadau i'r gyfraith etholiadol bresennol, yn enwedig Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983") a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (OS 2001/341) ("Rheoliadau 2001") sy'n darparu llawer o'r manylion gweithredol ar y system gofrestru (ymysg pethau eraill). Mae'r diwygiadau a wneir i Ddeddfau a rheoliadau yn y Rhan hon yn cael effaith at ddibenion etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd yn unig.

14. Mae'r Rhan hon hefyd yn diwygio Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i'r Senedd, yn y dyfodol, fod yn gyfrifol am oruchwylio'r Comisiwn Etholiadol (mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol yng Nghymru).

Mae hefyd yn gwneud darpariaeth o ran ariannu’r etholiadau hynny i fod yn daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru ac ar gyfer trefniadau archwilio cysylltiedig.

### *Adrannau 10 ac 11 – Estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau’r Senedd*

15. Mae adrannau 10 ac 11 o'r Ddeddf yn galluogi personau 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.

16. Mae adran 10 yn diwygio adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”), sy'n nodi pwy gaiff bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

17. Mae adran 12(1)(a) o Ddeddf 2006 yn darparu mai’r personau sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau’r Senedd fydd y rhai a fyddai â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru. Mae adran 10 o’r Ddeddf hon yn cynnal y sefyllfa honno, ond yn gostwng yr oedran y caiff person bleidleisio yn etholiadau’r Senedd i 16 oed a h#n. Yn yr un modd, mae adran 11 o'r Ddeddf hon yn estyn yr hawl i bleidleisio i ddinasyddion tramor cymhwysol.

18. Mae'r diwygiadau i adran 12 o Ddeddf 2006 yn darparu bod gan berson hawl i bleidleisio yn etholiadau’r Senedd os bydd ganddo hawl, oni bai am yr anableddau cyfreithiol a ddilëwyd gan yr adran, i gofrestru ar y gofrestr etholiadol llywodraeth leol (gweler adran 4 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983). Yr analluedd a ddilëir gan adran 12 yw diffyg gallu person 16 neu 17 oed a dinesydd tramor cymhwysol i bleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol.

## Cofrestru Etholiadol

### *Adran 12 – Yr hawl i gofrestru yn etholwr llywodraeth leol*

19. Mae adran 12 yn diwygio adran 4 o Ddeddf 1983 i bennu pwy gaiff gofrestru ar y gofrestr etholiadol llywodraeth leol at ddibenion etholiadau’r Senedd fel bod yr oedran pan gaiff person hawl i gael ei gofrestru yn etholwr llywodraeth leol yn newid o 18 oed neu'n h#n i 16 oed neu'n h#n.

20. Mae adran 12 hefyd yn diwygio adran 203(1) o Ddeddf 1983 i gynnwys diffiniad o ddinesydd tramor cymhwysol.

### *Adran 13 – Canfasio blynyddol*

21. Mae adran 13 yn gwneud diwygiadau i’r broses ganfasio aelwydydd flynyddol mewn perthynas ag etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru fel y’i nodir yn Neddf 1983 a Rheoliadau 2001.

22. Mae adran 13(1) yn addasu’r gofyniad i swyddogion cofrestru wneud ymholiadau o d# i d# at ddibenion cynnal cofrestr etholwyr llywodraeth leol fel nad yw’n gymwys i unrhyw berson o dan 16 oed.

23. Mae adran 13(2)(a) yn diwygio Rheoliadau 2001 fel bod y ffurflen ganfasio flynyddol ar gyfer etholwyr llywodraeth leol yn gofyn am enw llawn, dyddiad geni a chenedligrwydd pob person 14 a 15 oed sy’n gymwys i gofrestru yn y cyfeiriad. Mae’r ddarpariaeth yn caniatáu i’r swyddog cofrestru, at ddibenion etholiad i fod yn Aelod o’r Senedd, gynnwys y bobl a fydd yn 16 oed erbyn etholiad nesaf y Senedd ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol.

24. Mae adran 13(2)(b) yn atal swyddogion cofrestru rhag darparu dyddiad geni unrhyw berson o dan 16 oed ar ffurflenni canfasio wedi’u hargraffu ymlaen llaw.

### *Adran 14 – Gwahoddiadau i gofrestru*

25. Mae adran 14 yn diwygio darpariaethau sy’n ymdrin â gwahoddiadau i gofrestru yn Neddf 1983 a rheoliadau 2001 i gynnwys darpariaeth am bersonau o dan 16 oed.

26. Mae adran 14(1) yn diwygio adran 9E o Ddeddf 1983 fel na chaiff swyddog cofrestru osod cosb sifil ar berson nad yw’n cydymffurfio â gofyniad i wneud cais i gofrestru pan fo’r person hwnnw o dan 16 oed.

27. Mae adran 14(2) yn gwneud diwygiadau i reoliad 32ZC o Reoliadau 2001 sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r gwahoddiad i wneud cais i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol, pan fo’r person a wahoddir o dan 16 oed, gynnwys esboniad o sut y caiff gwybodaeth y person ei chadw a’i defnyddio.

28. Mae adran 14(3) yn diwygio rheoliad 32ZD o Reoliadau 2001 fel na fydd yn ofynnol i swyddog cofrestru ymweld â chyfeiriad person a wahoddir i gofrestru pan roddir y gwahoddiad i berson o dan 16 oed.

29. Mae adran 14(4) yn diwygio rheoliad 32ZE drwy addasu’r amodau sy’n gymwys cyn y caiff swyddog cofrestru ofyn i berson o dan 16 oed gofrestru. Mewn achosion o’r fath, nid oes gofyniad i’r swyddog fod wedi rhoi gwybod i’r person y gellid gosod cosb sifil os na fydd y person yn gwneud cais i gofrestru. Mae hefyd yn dileu’r gofyniad i gynnwys gwybodaeth am y gosb sifil pan anfonir hysbysiad sy’n ei gwneud yn ofynnol i berson gofrestru at berson o dan 16 oed.

### *Adran 15 – Gwahoddiad i gofrestru: darpariaeth bellach am bersonau o dan 16 oed*

30. Mae adran 15 yn rhoi’r p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwahoddiadau i wneud cais i gofrestru yn etholwr llywodraeth leol yng Nghymru. Mae’n bosibl y bydd angen gwneud y rheoliadau hyn o ganlyniad i ostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau’r Senedd, y mae'r etholfraint yn gysylltiedig â’r gofrestr llywodraeth leol (gweler adran 12 o Ddeddf 2006).

### *Adran 16 – Ceisiadau i gofrestru*

31. Mae adran 16 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 2001 mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.

32. Mae adran 16(3)(a) yn diwygio rheoliad 26 fel ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i’r ymgeiswyr na allant ddarparu dyddiad geni ddatgan a ydynt o dan 16 oed, yn 16 neu’n 17 oed, neu’n 18 oed neu’n h#n.

33. Effaith y diwygiad yn adran 16(3)(b) yw ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn Etholiadol gynnwys y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ym mharagraff (1A) wrth ddylunio ffurflenni cais perthnasol.

34. Mae adran 16(3)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gynnwys gwybodaeth ar y ffurflen Gwahoddiad i Gofrestru sy'n nodi, yn achos cofrestru etholwyr llywodraeth leol, nad yw personau nad ydynt yn ddinasyddion tramor cymhwysol, dinasyddion y Gymanwlad, dinasyddion Gweriniaeth Iwerddon a dinasyddion perthnasol yr Undeb yn gymwys i gofrestru i bleidleisio.

35. Mae adran 16(3)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol nodi yn y ffurflenni cais perthnasol sut y caiff gwybodaeth am ymgeiswyr i gofrestru sydd o dan 16 oed ei chadw a'i defnyddio.

36. Mae adran 16(3)(e) yn diwygio rheoliad 26 drwy ddileu'r gofyniad i ddarparu rhif Yswiriant Gwladol wrth wneud cais i gofrestru pan fo'r ymgeisydd o dan 16 oed.

37. Mae hefyd yn dileu’r gofyniad ar swyddogion cofrestru i roi esboniad i’r ymgeiswyr o’r gofrestr olygedig pan fo’r ymgeisydd o dan 16 oed a phan fo’r swyddog cofrestru wedi awdurdodi’r ymgeisydd i ddarparu’r wybodaeth sy’n ofynnol dros y ffôn neu’n

bersonol. Y rheswm am hyn yw na fydd manylion pobl 14 neu 15 oed yn cael eu cynnwys yn y gofrestr olygedig.

38. Mae adran 16(4) yn diwygio rheoliad 26B. Pan fo'r ymgeisydd o dan 16 oed, nid yw p#er y swyddog cofrestru i ofyn am wybodaeth ychwanegol o dan y rheoliad hwnnw'n gymwys os oes gwybodaeth ar gael i'r swyddog cofrestru o gofnodion addysgol, a phan fo'r wybodaeth honno'n bodloni'r swyddog cofrestru o ran hunaniaeth yr ymgeisydd a'i hawl i gael ei gofrestru.

39. Mae adran 16(5) yn dileu'r gofyniad yn rheoliad 28 bod rhaid i gais i gofrestru, ac unrhyw wrthwynebiad i gais o'r fath, fod ar gael i'w archwilio, pan wneir cais gan berson o dan 16 oed. Ni fydd manylion ceisiadau personau o dan 16 oed yn cael eu cyhoeddi.

40. Mae adran 16(6) yn darparu nad yw rheoliad 29ZA yn gymwys mewn achosion pan wneir cais i gofrestru gan berson o dan 16 oed. Mae Rheoliad 29ZA yn gwneud darpariaeth ynghylch dilysu gwybodaeth a ddarperir mewn cais i gofrestru sy'n cynnwys anfon y wybodaeth i'w gwirio ar sail cofnodion a gedwir gan Cyllid a Thollau EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

### *Adran 17 – Adolygu'r hawl i gofrestru*

41. Mae adran 17(2) yn darparu nad yw rheoliad 31D(2)(b) yn gymwys pan fo testun adolygiad o'r fath o dan 16 oed.

42. Mae rheoliad 31D(2)(b) o Reoliadau 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru wneud cofnod mewn rhestr (y gellir ei harchwilio) pan na fydd y swyddog yn fodlon bod gan destun adolygiad hawl i gael ei gofrestru.

43. Mae adran 17(3) yn diwygio rheoliad 31E fel nad yw'r gofyniad i gadw rhestr o adolygiadau'n gymwys pan fo testun yr adolygiad o dan 16 oed.

### *Adran 18 – Cofrestru'n ddienw*

44. Mae adran 18 yn ychwanegu at restr, yn rheoliad 31J, y personau a gaiff ardystio cais i gofrestru'n ddienw a wneir gan berson o dan 16 oed mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n caniatáu i berson a awdurdodir gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru lofnodi i ardystio y byddai diogelwch yr ymgeisydd (neu berson arall a enwir yn aelwyd yr ymgeisydd) mewn perygl pe byddai'r gofrestr yn cynnwys enw neu gyfeiriad cymhwysol yr ymgeisydd.

### *Adran 19 – Datganiad o gysylltiad lleol*

45. Mae adran 19 yn diwygio adran 7B o Ddeddf 1983 mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.

46. Mae adran 7B yn nodi o dan ba amgylchiadau y caniateir i berson wneud datganiad o gysylltiad lleol. Effaith datganiad o gysylltiad lleol yw y gellir cofrestru datganwyr drwy nodi cyfeiriad heblaw'r un nad ydynt yn byw ynddo fel rheol.

47. Mae'r diwygiadau a wneir gan adran 19(2) yn caniatáu i bersonau o dan 18 oed wneud datganiad o gysylltiad lleol os ydynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol neu'n cael eu cadw mewn llety diogel a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn amgylchiadau a bennir hefyd yn y rheoliadau.

48. Mae adran 19(3) yn diwygio is-adran (3)(e) o Ddeddf 1983 i'w gwneud yn ofynnol i ddatganiadau o gysylltiad lleol nodi a yw person yn ddinesydd tramor cymhwysol.

49. Mae adran 19(4) yn diwygio adran 7B(4) o Ddeddf 1983 ac yn nodi'r gofynion o ran cyfeiriad person sy'n gwneud datganiad o gysylltiad lleol o dan adran 7B(2A). Rhaid i'r cyfeiriad fod yn gyfeiriad yng Nghymru y mae'r person wedi byw ynddo o'r blaen

neu fod yn gyfeiriad mewn cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru y mae’r person wedi byw ynddo o’r blaen.

50. Mae adran 19(5) yn egluro na fydd y datganiadau a wneir yn rhinwedd adran 7B(2A) o Ddeddf 1983 yn cael effaith yn etholiadau seneddol y DU. Mae hefyd yn egluro na fydd datganiadau o gysylltiad lleol eraill a wneir gan ddinesydd tramor cymhwysol neu bersonau o dan 17 oed nad oes ganddynt hawl i gael eu cofrestru yn y gofrestr etholiadau seneddol yn cael effaith yn etholiadau seneddol y DU. Mae'n darparu y dylid marcio'r cofrestrau etholiadol i ddangos y datganiadau o gysylltiad lleol sy'n gymwys i gofrestru fel etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru yn unig.

51. Mae adran 19(5) hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y dylid nodi datganiadau o gysylltiad lleol ar y gofrestr.

### *Adran 20 – Datganiadau o wasanaeth*

52. Mae adran 20(2) yn diwygio adran 14 o Ddeddf 1983 i ganiatáu i unigolion penodol o dan 18 oed feddu ar gymhwyster gwasanaeth at ddibenion Deddf 1983. Mae’n rhaid bod gan yr unigolyn o dan 18 oed riant neu warcheidwad sydd â chymhwyster gwasanaeth ac mae’n rhaid ei fod yn byw mewn man penodol er mwyn bod gyda’r rhiant hwnnw neu’r gwarcheidwad hwnnw. Effaith y diwygiad yw ei fod yn ymestyn, at ddibenion etholiadau’r Senedd, y categorïau o bersonau a gaiff wneud datganiad o wasanaeth. Drwy gael caniatâd i wneud datganiad o wasanaeth, caiff personau cymwys o dan 18 oed gofrestru i bleidleisio drwy nodi eu cyfeiriad cartref (neu eu cyfeiriad blaenorol) yng Nghymru, yn hytrach na’r cyfeiriad lle y mae eu rhiant neu eu gwarcheidwad yn gwasanaethu (gwasanaeth milwrol fel rheol).

53. Mae adran 20(3) yn diwygio adran 15 o Ddeddf 1983 drwy wneud darpariaeth ar gyfer dirymu’r cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A) pan fo’r person sydd wedi gwneud y datganiad o wasanaeth yn cyrraedd 18 oed. Mae datganiad o wasanaeth a wneir o dan adran 14(1A) yn peidio â bod yn weithredol pan fydd y person a wnaeth y datganiad yn cyrraedd 18 oed ac mae hawl y person i barhau i fod ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol hefyd yn dod i ben. Pan fydd yr hawl i fod ar y gofrestr yn dod i ben, rhaid dileu manylion y person o’r gofrestr.

54. Fel gyda datganiadau o gysylltiad lleol, mae adran 20(3)(b) yn egluro mai dim ond at ddibenion cofrestru person fel etholwr llywodraeth leol yng Nghymru y mae’r darpariaethau ar ddatganiadau o wasanaeth a fewnosodir gan y Ddeddf hon yn berthnasol ac nad ydynt yn cael effaith at ddibenion etholiadau seneddol y DU.

55. Mae adran 20(4) yn diwygio adran 16 o Ddeddf 1983 sy’n gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys datganiad o wasanaeth.

56. Mae’r diwygiad yn darparu, o ran cofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru, nad oes angen ardystio datganiad o wasanaeth a wneir gan berson o dan 18 oed fel y nodir yn adran 14(1A).

57. Mae adran 20(5)(a) yn diwygio adran 17 o Ddeddf 1983 i ychwanegu cyfeiriad at ddinasyddion tramor cymhwysol.

58. Mae adran 20(5)(b) yn gwneud newid canlyniadol i adran 17 o Ddeddf 1983 fel bod y ddarpariaeth gyffredinol ynghylch effaith barhaus datganiad o wasanaeth yn cael ei gwneud yn ddarostyngedig i adran 15(3A) o Ddeddf 1983

### *Adran 21 – Cynnwys datganiadau o wasanaeth*

59. Mae adran 21 yn diwygio Rheoliadau 2001 drwy addasu’r ddarpariaeth bresennol a gwneud darpariaeth ychwanegol yngl#n â chynnwys datganiad o wasanaeth mewn achosion lle y mae datganydd yn hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A). Mae adran 21(2)(a) yn diwygio rheoliad 15 fel nad yw person sy’n hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A) yn ddarostyngedig i’r gofyniad i ddarparu gwybodaeth

o dan reoliad 15(1)(c) ond mae'n ofynnol iddo ddarparu'r wybodaeth a bennir yn rheoliad 15A.

60. Mae adran 21(2)(b) yn diwygio ystyr adran Llywodraeth yn rheoliad 15(3) mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru fel ei fod yn cynnwys unrhyw sefydliad lle y mae gweision y Goron yn gweithio.

61. Mae adran 21(3) yn mewnosod rheoliad 15A yn rheoliadau 2001. Mae'r rheoliad yn gwneud darpariaeth ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen mewn datganiad o wasanaeth lle y mae person yn hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A). Mae'r rhain yn cynnwys manylion rhiant neu warcheidwad yr ymgeisydd sydd â chymhwyster gwasanaeth. Er enghraifft, rhaid i ddatganiad a wneir ar sail rhiant neu warcheidwad sy'n aelod o'r lluoedd arfog gynnwys y gwasanaeth, y rheng neu'r dosbarth, a rhif gwasanaeth, a chatrawd neu gorfflu (lle y bo'n briodol) y rhiant hwnnw neu'r gwarcheidwad hwnnw.

### *Adran 22 – Datganiadau o wasanaeth: darpariaeth bellach*

62. Mae adran 22 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch datganiadau o wasanaeth mewn diwygiadau i Reoliadau 2001.

63. Mae adran 22(2) yn diwygio rheoliad 25 ac yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru anfon neges atgoffa at berson sydd â chymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A) o Ddeddf 1983 y bydd y datganiad o wasanaeth yn peidio â bod yn weithredol ac y bydd yr hawl i barhau i fod ar y gofrestr yn dod i ben pan fydd y person yn cyrraedd 18 oed.

64. Mae adran 22(3)(a) yn diwygio rheoliad 26B fel nad yw person sy'n hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A) yn ddarostyngedig i'r gofyniad i ddarparu'r dogfennau a nodir ym mharagraffau (2) i (6) o'r rheoliad.

65. Mae adran 22(3)(b) hefyd yn diwygio rheoliad 26B drwy bennu'r dogfennau y gall fod eu hangen ar swyddog cofrestru yn achos person sy'n hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A). Caiff swyddog cofrestru ofyn i'r ymgeisydd ddarparu pasbort neu gerdyn adnabod yr ymgeisydd, neu gopi o un. Os darperir copi, rhaid iddo gael ei ardystio gan swyddog perthnasol. Mae adran 22(3)(b) yn mewnosod diffiniad o swyddog perthnasol yn rheoliad 26B ac yn eithrio rhiant, gwarcheidwad, priod neu bartner sifil yr ymgeisydd o'r diffiniad hwnnw.

### *Adran 23 – Cofrestr etholwyr*

66. Mae adran 23 yn diwygio adran 9 o Ddeddf 1983. Mae'r diwygiad yn darparu, lle y caiff y gofrestr etholwyr seneddol a'r gofrestr etholwyr llywodraeth leol eu cyfuno a lle y mae'n cynnwys cofnod ar gyfer person 16 neu 17 oed sydd wedi'i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol yn unig, rhaid i'r cofnod nodi'r dyddiad pan fydd y person yn cyrraedd 18 oed.

67. Effaith hyn fydd sicrhau y bydd swyddogion cofrestru yn cael eu hysbysu pan fydd yr etholwr yn cyrraedd 18 oed, a gellir cymryd camau wedi hynny i sicrhau cywirdeb y gofrestr gyfunol.

### *Adran 24 – Diogelu gwybodaeth am bersonau o dan 16 oed*

68. Mae adran 24 yn gwahardd swyddogion cofrestru (a phersonau sy'n eu cynorthwyo) rhag cyhoeddi, cyflenwi neu ddatgelu gwybodaeth person ifanc ac eithrio lle y caniateir iddynt wneud hynny o dan y Ddeddf hon. Diffiniad gwybodaeth person ifanc, at ddibenion adrannau 24, 25 a 26, yw unrhyw gofnod yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol, neu gofnod neu restr pleidleiswyr absennol sy'n ymwneud â phersonau o dan 16 oed.

### *Adran 25 – Eithriadau i'r gwaharddiad ar ddatgelu*

69. Mae adran 25 yn pennu o dan ba amgylchiadau y caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc.

70. Mae adran 25(10) hefyd yn darparu na chaiff person y datgelir gwybodaeth person ifanc iddo o dan is-adran (2) neu (6) drosglwyddo'r wybodaeth honno i berson arall, oni bai bod y datganiad at ddibenion yr is-adrannau hynny.

71. Mae adran 25(11) yn darparu bod person y datgelir gwybodaeth person ifanc iddo o dan is-adran (2) neu (6) yn cyflawni trosedd ddiannod os yw'r person yn trosglwyddo'r wybodaeth honno'n groes i is-adran (10).

### *Adran 26 – Darpariaeth bellach ar gyfer eithriadau*

72. Mae adran 26 yn nodi p#er Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd.

73. Mae adran 26(2) yn nodi rhestr anghynhwysfawr o'r math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud yn y rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch:

— y personau y caniateir cyflenwi'r wybodaeth iddynt;

— at ba ddibenion y caniateir cyflenwi'r wybodaeth;

— y cyfyngiadau sy'n gymwys i'r rhai sy'n cael y wybodaeth,

— y cyfyngiadau sy'n gymwys i'r personau sy'n paratoi'r gofrestr lawn.

74. Mae adran 26(3) yn caniatáu i reoliadau i ddiwygio neu ddiddymu unrhyw un o'r eithriadau rhag gwaharddiad ar ddatgelu gwybodaeth pobl ifanc a nodir yn adran 24. Mae is-adran (3) hefyd yn caniatáu rheoliadau i greu troseddau diannod ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd.

75. Mae adran 26(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau sy'n briodol, yn eu barn hwy, cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon.

### *Adran 27 – Diwygiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007*

76. Mae adran 27 yn mewnosod diffiniad o oedran pleidleisio yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n golygu personau 16 oed neu drosodd. Mae'n diwygio'r diffiniad o ddinesydd cymhwysol y Gymanwlad ac yn mewnosod diffiniad newydd o ran dinesydd tramor cymhwysol. Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch cynnal etholiadau'r Senedd, gan gynnwys darpariaeth ynghylch pleidleisio a phleidleiswyr.

77. Mae adran 27(3) yn caniatáu i ddinasyddion tramor cymhwysol a'r holl bersonau 16 oed a throsodd gael eu henwebu i weithredu fel pleidleisiwr drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd.

## Goruchwylio'r gwaith o weinyddu etholiadau

### *Adran 28 – Trefniadau ariannol a goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol*

78. Mae'r adran hon yn mewnosod paragraffau newydd 16A i 16C, 20A ac 20B yn Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ac yn gwneud rhagor o ddiwygiadau i'r Atodlen honno o ganlyniad i ychwanegu'r paragraffau newydd.

79. Mae paragraff 16A newydd yn darparu ar gyfer ariannu gwaith y Comisiwn Etholiadol, i'r graddau y mae'n ymwneud ag etholiadau i'r Senedd ac i lywodraeth leol yng Nghymru, ac i refferenda datganoledig Cymru, i fod yn daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau'r Senedd gynnwys pwyllgor

o dan gadeiryddiaeth y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd a'i alw'n Bwyllgor y Llywydd. Bydd y Pwyllgor hwnnw, yn cael amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant gan y Comisiwn Etholiadol y gellir eu priodoli i waith y Comisiwn ar etholiadau i'r Senedd ac i lywodraeth leol yng Nghymru ac i refferenda datganoledig Cymru. Bydd Pwyllgor y Llywydd yn gosod yr amcangyfrif gerbron y Senedd. Cyn gwneud hynny, rhaid i Bwyllgor y Llywydd fod yn fodlon bod yr amcangyfrif yn gyson â'r Comisiwn Etholiadol yn arfer ei swyddogaethau o ran ei waith ar etholiadau i'r Senedd ac i lywodraeth leol yng Nghymru ac i refferenda datganoledig Cymru mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

80. Os nad yw'n fodlon yn hynny o beth, rhaid i Bwyllgor y Llywydd ddiwygio'r amcangyfrif cyn ei osod gerbron y Senedd.

81. Mae paragraff 16B newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol nodi cynllun pum mlynedd ar gyfer ei weithgarwch o ran etholiadau i'r Senedd ac i lywodraeth leol yng Nghymru a refferenda datganoledig Cymru. Rhaid darparu cynllun:

— pan gyflwynir yr amcangyfrif cyntaf oll (o dan baragraff 16A newydd);

— pan gyflwynir amcangyfrif sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol gyntaf i ddechrau ar ôl y diwrnod pan fydd Senedd Cymru yn cyfarfod yn dilyn etholiad cyffredinol arferol Aelodau'r Senedd, a

— phan gyflwynir amcangyfrif ac mae Pwyllgor y Llywydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno cynllun ar y cyd ag ef.

82. Rhaid i'r cynllun hwnnw gael ei osod gerbron y Senedd gan Bwyllgor y Llywydd. Cyn gwneud hynny, rhaid i Bwyllgor y Llywydd fod yn fodlon bod y cynllun yn gyson â'r Comisiwn Etholiadol yn arfer ei swyddogaethau o ran ei waith ar etholiadau i'r Senedd ac i lywodraeth leol yng Nghymru ac i refferenda datganoledig Cymru mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. Os nad yw'n fodlon yn hynny o beth, rhaid i Bwyllgor y Llywydd addasu'r cynllun fel y bo'n briodol, yn ei farn ef, cyn ei osod gerbron y Senedd.

83. Mae paragraff 16C newydd yn ymwneud â swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o ran yr amcangyfrif sy'n ofynnol yn ôl paragraff 16A a'r cynllun sy'n ofynnol yn ôl paragraff 16B. Cyn i Bwyllgor y Llywydd ystyried yr amcangyfrif a'r cynllun, rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad o ran pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol (neu unrhyw gyfuniad ohonynt) y mae'r Comisiwn Etholiadol wedi defnyddio ei arian wrth gyflawni ei swyddogaethau ym mharagraffau 16A ac 16B, a chyflwyno adroddiad ar yr archwiliad hwnnw i Bwyllgor y Llywydd.

84. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio paragraff 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i'w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliad arall o gyfrifon y Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â gweithgarwch y Comisiwn a nodir ym mharagraffau 16A ac 16B os bydd Pwyllgor y Llywydd yn gofyn iddo wneud hynny.

85. Mae paragraff 20A newydd i Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn gosod gofynion adrodd ar y Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn y Llywydd mewn perthynas â'u gweithgarwch a nodir ym mharagraffau 16A ac 16B. Mae'r adroddiadau hynny i'w gosod gerbron y Senedd.

## *Atodlen 2*

### Y Comisiwn Etholiadol: Diwygiadau Pellach

86. Mae'r Atodlen hon yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983") ac i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("PPERA").

87. Mae diwygiadau i Ddeddf 1983 yn caniatáu i'r Comisiwn Etholiadol wneud cod ymarfer mewn perthynas â threuliau etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

88. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r Cod gydag addasiadau neu hebddynt. Yna, rhaid iddynt osod y Cod, ar ffurf drafft, gerbron y Senedd. O fewn 40 diwrnod, caiff y Senedd wneud penderfyniad i beidio â chymeradwyo'r Cod drafft. Os digwydd hynny, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â chymryd rhagor o gamau mewn perthynas ag ef.

89. Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd.

90. Mae Atodlen 2 hefyd yn mewnosod tair adran newydd yn PPERA.

91. Mae adran 6ZA newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol barhau i gael ei adolygu a chyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru ar etholiadau a refferenda datganoledig a'r gyfraith sy'n ymwneud â hwy.

92. Mae adran 6G newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol lunio cod ymarfer ar bresenoldeb cynrychiolwyr y Comisiwn, sylwedyddion achrededig ac aelodau enwebedig sefydliadau achrededig mewn etholiadau. Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud ag etholiadau i'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

93. Mae adran 9AA newydd yn caniatáu i'r Comisiwn Etholiadol bennu a chyhoeddi safonau perfformiad (i) swyddogion cofrestru etholiadol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, (ii) swyddogion canlyniadau ar gyfer etholiadau i'r Senedd a (iii) swyddogion cyfrif ar gyfer refferenda llywodraeth leol.

94. Mae'r Atodlen hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adlewyrchu’r darpariaethau a nodwyd uchod.

## Rhan 4

### Anghymhwyso

95. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn diwygio'r gyfraith ar anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o'r Senedd. Mae'r darpariaethau yn Rhan 4 yn adlewyrchu rhai o'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn ei adroddiad ar anghymhwyso ym mis Gorffennaf 2014 – Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

96. Ar hyn o bryd, mae adran 16(1)(a) a (2) o Ddeddf 2006 yn darparu bod person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd os yw'r person wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o D#'r Cyffredin. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn diddymu'r darpariaethau hynny ac yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf 2006 sy'n nodi’r holl resymau dros anghymhwyso ar wyneb Deddf 2006 yn hytrach na thrwy gyfeirio at anghymhwyso person rhag bod yn aelod o D#'r Cyffredin.

97. Mae Rhan 4 hefyd yn diwygio Deddf 2006 fel ei bod yn gwahaniaethu rhwng yr amgylchiadau sy’n rhwystr rhag ymgeisyddiaeth i’r Senedd a’r swyddi hynny sy’n rhwystr rhag bod yn Aelod o’r Senedd, ond nid rhag ymgeisyddiaeth. Yr olaf yw’r rhai yr ystyrir y gallent arwain at wrthdaro buddiant pe byddai person yn Aelod o’r Senedd ond lle y mae modd ymddiswyddo o’r swydd sy’n achosi’r gwrthdaro cyn tyngu’r llw neu gadarnhau teyrngarwch.

98. Dargedwir y trefniadau arbennig a wnaed eisoes mewn perthynas ag Aelodau Seneddol yn adrannau 17A a 17B o Ddeddf 2006. Mae'r adrannau hynny’n caniatáu i berson fod yn aelod o'r ddwy ddeddfwrfa am gyfnod cyfyngedig mewn rhai amgylchiadau. Mae’r Ddeddf yn diwygio Deddf 2006 fel y gwneir darpariaeth arbennig yn yr un modd mewn perthynas ag Aelodau o D#'r Arglwyddi ac aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru.

99. Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith at ddibenion etholiad y Senedd a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.

### *Adran 29 – Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o'r Senedd*

100. Mae adran 29 yn diwygio adran 16 o Ddeddf 2006 i greu gwahaniaeth rhwng anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o'r Senedd a rhag bod yn ymgeisydd ar gyfer etholiad i'r Senedd, ac anghymhwyso person rhag bod yn Aelod yn unig. Mae hefyd yn newid y ffordd y mae Deddf 2006 yn nodi'r rhesymau dros anghymhwyso.

101. Mae is-adran (2) yn mewnosod is-adran newydd (A1) yn adran 16 o Ddeddf 2006. Mae'n darparu y caiff person ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod, a rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd os yw wedi'i gynnwys mewn unrhyw un o'r categorïau person a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006 neu'n dal unrhyw un o'r swyddi a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1A (a fewnosodwyd gan adran 29(7) o'r Ddeddf).

102. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 16(1) o Ddeddf 2006 i ddarparu bod Aelodau o D#'r Cyffredin, Aelodau o D#'r Arglwyddi, aelodau o gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, aelodau o Senedd yr Alban, aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Aelodau o Senedd Ewrop a phersonau a restrir mewn unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 16(1)(b) o Ddeddf 2006, wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd, ond nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn ymgeiswyr.

103. Mae is-adran (4) yn mewnosod is-adran (1A) newydd yn adran 16 o Ddeddf 2006 sy'n ei gwneud yn glir nad yw aelodau o Senedd yr Alban, aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Aelodau o Senedd Ewrop a phersonau sy'n dal swydd a nodir mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor wedi'u hanghymhwyso os yw'r person yn ymddiswyddo cyn tyngu'r llw (neu'r cadarnhad cyfatebol) fel Aelod o'r Senedd.

104. Mae is-adrannau (3)(c) a (5) hefyd yn dileu'r anghymwysiadau presennol sy'n gysylltiedig ag anghymwysiadau rhag bod yn Aelod o D#'r Cyffredin. Mae adran 29 (3)(e) yn dileu paragraffau (c) i (e) o adran 16(1) o Ddeddf 2006. Mae paragraffau (c) a (d) yn anghymhwyso Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rhag bod yn Aelodau o'r Cynulliad. Mae paragraff (e) yn anghymhwyso aelodau staff y Cynulliad. Mae adran 29 (5) yn dileu'r anghymwysiadau presennol ar gyfer rhai personau (Arglwydd Raglaw, Rhaglaw neu Uchel-Siryf) mewn perthynas ag etholaeth neu ranbarth etholiadol Senedd. Dargedwir yr anghymwysiadau a gafodd eu dileu gan adran 29(3), ond maent wedi'u cynnwys erbyn hyn gydag amgylchiadau eraill sy'n anghymhwyso yn Atodlen 1A i Ddeddf 2006. Mae Atodlen 1A yn darparu ar gyfer anghymhwyso personau sy'n dal swydd Arglwydd Raglaw, Rhaglaw neu Uchel-Siryf ar gyfer unrhyw ardal yng Nghymru.

105. Mae is-adran (7) yn cyflwyno'r Atodlen 1A newydd. Mae Rhan 1 o Atodlen 1A yn nodi categorïau o bersonau sydd wedi'u hanghymhwyso; mae Rhan 2 yn nodi swyddi sy'n anghymwyso. Ym mhob achos, maent yn anghymhwyso personau rhag bod yn ymgeiswyr, yn ogystal ag Aelodau o'r Senedd.

### *Adran 30 – Eithriadau a rhyddhad rhag anghymhwyso*

106. Mae adran 30 yn diwygio adran 17 o Ddeddf 2006. Mae is-adran (2) yn dileu'r eithriad rhag anghymhwyso i Arglwyddi ac Arglwyddi Ysbrydol (archesgobion ac esgobion). Mae hefyd yn dileu'r eithriad ar gyfer anghymhwyso rhai o ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU a anwyd dramor nad oes eu hangen mwyach o ystyried diddymu adran 16(2) o Ddeddf 2006. Erbyn hyn, gwneir darpariaeth gyfatebol yn Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006.

107. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 17(3) o Ddeddf 2006 fel y caiff y Senedd ddyfarnu rhyddhad a diystyru anghymhwysiad person rhag bod yn Aelod o'r Senedd os caiff ei

anghymhwyso yn rhinwedd adran 16(1) o Ddeddf 2006, ond nid os caiff y person ei anghymhwyso hefyd rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o’r Senedd yn rhinwedd adran 16(A1).

### *Adran 31 – Eithriad rhag anghymhwyso yn rhinwedd bod yn Aelod Seneddol: newidiadau i ddyddiadau etholiadau cyffredinol Aelodau o'r Senedd*

108. Mae adran 17B o Ddeddf 2006 yn darparu eithriad rhag anghymhwyso Aelod Cynulliad a ddychwelir fel Aelod Seneddol o fewn 372 o ddyddiau ar ôl etholiad cyffredinol nesaf Aelodau’r Cynulliad. At ddiben adran 17B o Ddeddf 2006, mae diwrnod disgwyliedig etholiad cyffredinol nesaf Aelodau'r Cynulliad i'w bennu drwy gyfeirio at yr amgylchiadau ar ddechrau diwrnod dychwelyd yr Aelod Cynulliad fel Aelod Seneddol. Cyfeirir at hyn fel “y cyfnod perthnasol”.

109. Mae adran 31 yn diwygio adran 17B o Ddeddf 2006 fel ei bod yn adlewyrchu'r gwelliannau a wneir gan Ddeddf Cymru 2017 i adrannau 3 a 4 o Ddeddf 2006, yn benodol mewn perthynas â'r dulliau ar gyfer newid y dyddiad pan ellir cynnal etholiad Cynulliad.

110. Mae adran 31 hefyd yn diwygio adran 17B(4) o Ddeddf 2006 i ddisodli cyfeiriad anghywir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i broclamasiwn er mwyn sicrhau cysondeb ag adran 5 o Ddeddf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

### *Adran 32 – Eithriad rhag anghymhwyso yn rhinwedd bod yn aelod o D#’r Arglwyddi*

111. Mae adran 32 yn mewnosod adran 17C newydd i Ddeddf 2006. Nid oedd Aelodau o D#'r Arglwyddi wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o’r Senedd o'r blaen yn rhinwedd adran 17(1) o Ddeddf 2006 (a ddiddymir gan adran 30(2) o'r Ddeddf hon). Yn y dyfodol, bydd Aelodau o D#'r Arglwyddi yn cael eu hanghymhwyso o dan adran 16(1)(zb) o Ddeddf 2006 (a fewnosodir gan adran 29(3)(b) o'r Ddeddf hon), yn ddarostyngedig i’r eithriadau a gyflwynir gan yr adran hon.

112. O dan adran 17(C)(1) o Ddeddf 2006, ni fydd Aelodau o D#’r Arglwyddi a ddychwelir mewn etholiad fel Aelod o’r Senedd yn cael eu hanghymhwyso yn ystod y cyfnod wyth diwrnod ar ôl iddynt gael eu dychwelyd. Bwriad y 'cyfnod gras' wyth diwrnod yw rhoi digon o amser i Aelodau sydd newydd eu hethol wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol o D#'r Arglwyddi. Caiff T#’r Arglwyddi ddyfarnu caniatâd i fod yn absennol i Aelod pan nad yw’r Aelod yn gallu mynd i eisteddiadau’r T# dros dro a phan fo gan yr Aelod ddisgwyliad rhesymol y bydd yn cymryd rhan yn nhrafodion y T# eto yn y dyfodol.

113. Bydd adran 17(C)(2) newydd o Ddeddf 2006 yn darparu, yn yr un modd, na fydd Aelodau o'r Senedd sy'n dod yn Aelodau o D#'r Arglwyddi yn cael eu hanghymhwyso cyn diwedd y cyfnod wyth diwrnod sy’n dechrau gyda'r diwrnod y mae'r person yn tyngu’r llw (neu'r cadarnhad cyfatebol) fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llwon Seneddol 1866.

114. Mae adran 17(C)(3) newydd o Ddeddf 2006 yn darparu nad yw person wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd os oes ganddo naill ai ganiatâd i fod yn absennol o D#'r Arglwyddi, neu os yw wedi gwneud cais am ganiatâd nad yw wedi’i dynnu'n ôl na’i wrthod.

115. Bydd adran 17(C)(4) newydd o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn glir nad yw person sydd â chaniatâd i fod yn absennol o D#'r Arglwyddi yn union cyn i Senedd y DU gael ei diddymu, wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd ar unrhyw adeg rhwng diddymu hen Senedd y DU a diwedd y cyfnod wyth diwrnod sy’n dechrau gyda diwrnod cyfarfod cyntaf Senedd newydd y DU. Diben y ddarpariaeth hon yw rhoi digon o amser i Aelod o D#'r Arglwyddi sydd â chaniatâd i fod yn absennol yn ystod un tymor yn

Senedd y DU (ac sydd am barhau i fod yn absennol) adnewyddu ei ganiatâd i fod yn absennol o'r T# ar ddechrau'r tymor newydd yn Senedd y DU.

### *Adran 33 – Eithriadau rhag anghymhwyso yn rhinwedd bod yn aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol*

116. Mae adran 33 yn mewnosod adrannau 17D, 17E a 17F newydd yn Neddf 2006. Mae'r adrannau'n darparu ar gyfer rhai eithriadau rhag anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd yn rhinwedd bod yn aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

117. Byddai adran 17D newydd o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer eithriad rhag anghymhwyso ar gyfer Aelodau sydd newydd eu hethol. Ni fyddai person a ddychwelir fel Aelod mewn etholiad i'r Senedd yn cael ei anghymhwyso nes i'r person hwnnw honni ei fod yn tyngu'r llw teyrngarwch (neu'r cadarnhad cyfatebol). Hefyd, ni fyddai Aelod o'r Senedd a ddychwelir fel aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru yn cael ei anghymhwyso nes i'r person hwnnw wneud datganiad derbyn.

118. Mae adran 17E newydd o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer eithriad â therfyn amser rhag anghymhwyso os dychwelir aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru fel Aelod o'r Senedd; ac mae diwrnod disgwyliedig etholiad cyffredin nesaf aelodau'r cyngor o fewn 372 o ddiwrnodau i'r diwrnod dychwelyd. Mae adran 17E(2) yn darparu y bydd y 'cyfnod gras' rhag anghymhwyso yn dechrau ar y diwrnod dychwelyd ac yn gorffen ar y pedwerydd diwrnod ar ôl diwrnod etholiad cyffredinol arferol nesaf aelodau'r cyngor. Mae dyddiad disgwyliedig yr etholiad cyffredin nesaf i'w bennu drwy gyfeirio at yr amgylchiadau ar ddechrau'r diwrnod dychwelyd. Yr enw ar hyn yw "y cyfnod perthnasol". Mae adran 17E(4) yn darparu, at ddibenion pennu dyddiad disgwyliedig yr etholiad cyffredinol arferol nesaf, na ddylid ystyried yr amrywiol bwerau i newid pryd y gellir cynnal yr etholiad.

119. Mae adran 17E newydd o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer eithriad â therfyn amser rhag anghymhwyso os dychwelir Aelod o'r Senedd fel aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru; ac mae diwrnod disgwyliedig yr etholiad cyffredinol nesaf i'r Senedd o fewn 372 o ddiwrnodau i'r diwrnod dychwelyd. Mae adran 17F(2) yn darparu y bydd y 'cyfnod gras' rhag anghymhwyso yn dechrau ar y diwrnod dychwelyd ac yn gorffen yn union cyn diwrnod etholiad cyffredinol nesaf Aelodau o'r Senedd. Mae dyddiad disgwyliedig yr etholiad cyffredin nesaf i'w bennu drwy gyfeirio at yr amgylchiadau ar ddechrau'r diwrnod dychwelyd. Yr enw ar hyn yw "y cyfnod perthnasol". Pan fo adran 5(2) neu (3) (etholiad cyffredinol eithriadol) o Ddeddf 2006 yn gymwys, yn ystod y cyfnod perthnasol, mae adran 17F(4) yn gwneud darpariaeth amrywiol o ran beth y bydd y "dyddiad disgwyliedig". Mae adran 5 yn darparu dull i gynnal etholiad cyffredinol eithriadol cyn yr etholiad cyffredinol arferol nesaf a drefnir mewn amgylchiadau penodol.

120. Mae adran 5(2) yn gymwys os yw'r Cynulliad yn penderfynu, drwy fwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf, y dylid ei ddiddymu ac mae adran 5(3) yn gymwys pan fydd y cyfnod y mae'n ofynnol i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog yn dod i ben heb i enwebiad o'r fath gael ei wneud. Mae adran 17F(5) yn darparu, at ddibenion pennu dyddiad disgwyliedig yr etholiad cyffredinol arferol nesaf, na ddylid ystyried yr amrywiol bwerau i newid pryd y gellir cynnal yr etholiad.

### *Adran 34 – Effaith anghymhwyso*

121. Mae adran 34 yn diwygio adran 18 o Ddeddf 2006 i fewnosod is-adran (A1) newydd. Mae'r is-adran honno'n darparu, os bydd person sydd wedi'i anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd yn cael ei enwebu fel ymgeisydd mewn etholiad, y bydd yr enwebiad yn ddi-rym.

122. Mae'r adran hefyd yn diddymu rhai darpariaethau yn adrannau 18 a 19 o Ddeddf 2006 nad oes eu hangen mwyach o ganlyniad i adran 29 o'r Ddeddf. Mae'r holl ddarpariaethau

a ddiddymwyd yn ymwneud â'r posibilrwydd y caiff person ei anghymhwyso mewn perthynas ag etholaeth neu ranbarth etholiadol Senedd. Dim ond o dan adran 16(4) o Ddeddf 2006 sydd wedi'i diddymu gan adran 29(5) y mae'r posibilrwydd hwnnw'n codi.

### *Adran 35 – Diwygiadau canlyniadol*

123. Mae'r adran hon yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2006, Deddf Ansolfedd 1986, Mesur 2009 a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

## Rhan 5

## Amrywiol

124. Mae'r Rhan hon yn gwneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf 2006. Mae'n newid y dyddiad ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir y caiff Comisiwn y Senedd godi tâl am ddarparu nwyddau neu wasanaethau i'r cyhoedd.

125. Mae hefyd yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi adroddiad ar weithredu rhai o ddarpariaethau'r Ddeddf hon.

### *Adran 36 – Amseriad cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad cyffredinol*

126. Mae adran 36 yn ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad cyffredinol arferol neu eithriadol o 7 i 14 diwrnod.

### *Adran 37 – Pwerau Comisiwn y Senedd: darparu nwyddau a gwasanaethau*

127. Mae adran 37 yn amnewid paragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 i'w gwneud yn glir y caiff Comisiwn y Senedd godi tâl am ddarparu nwyddau neu wasanaethau.

### *Adran 38 – Adroddiad ar estyn yr hawl i bleidleisio a newid cymhwystra i fod yn Aelod o'r Senedd*

128. Mae adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad, ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Cynulliad ar weithredu darpariaethau yn y Ddeddf sydd yn:

— estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i bersonau sy'n 16 neu'n 17 oed;

— estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i bersonau sy'n ddinasyddion tramor cymhwysol;

— caniatáu i ddinasyddion tramor cymhwysol fod yn Aelodau o'r Senedd,

— anghymhwyso aelodau o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru rhag bod yn Aelodau o'r Senedd.

129. Rhaid llunio a chyhoeddi'r adroddiad o fewn chwe mis i ddiwedd y cyfnod adrodd.

130. Y cyfnod adrodd yw'r cyfnod pum mlynedd o ddiwrnod etholiad cyffredinol nesaf y Senedd a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny. Ar hyn o bryd, trefnir etholiad cyffredinol nesaf y Senedd ar gyfer mis Mai 2021.

## Rhan 6

## Cyffredinol

### *Adran 42 – Dod i rym*

131. Mae is-adran (1) yn nodi darpariaethau'r Ddeddf a ddaw i rym ar y diwrnod pan gaiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

132. Dim ond o etholiad cyffredinol y Senedd, a drefnir ar gyfer mis Mai 2021, y bydd y darpariaethau sy'n gostwng yr oedran pleidleisio, yn estyn y bleidlais i ddinasyddion tramor cymhwysol ac yn newid y gyfraith ynghylch anghymhwyso yn cael effaith. Yn yr un modd, mae is-adran (5) yn darparu mai dim ond ar ôl yr etholiad hwnnw y bydd adran 36 (amseriad y cyfarfod cyntaf) yn gymwys.

133. Bydd adrannau 12 i 26 o'r Ddeddf sy'n darparu y caiff personau 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol gofrestru i bleidleisio yn dod i rym ar 1 Mehefin 2020. Dim ond o etholiad cyffredinol y Senedd a drefnir ar gyfer mis Mai 2021 y mae'r darpariaethau hyn yn cael effaith.

134. Bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol (adran 28 ac Atodlen 2) yn dod i rym drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

135. Bydd y darpariaethau sy'n newid enw'r sefydliad (Rhan 2 o'r Ddeddf, gan gynnwys Atodlen 1) yn dod i rym ar 6 Mai 2020.

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

136. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=23754

| Cyfnod | Dyddiad |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 12 Chwefror 2019 |
| Cyfnod 1 – Dadl | 10 Gorffennaf 2019 |
| Cyfnod 2 – ystyried y gwelliannau | 9 Hydref 2019 |
| Cyfnod 3 - ystyried y gwelliannau | 13 Tachwedd 2019 |
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad | 27 Tachwedd 2019 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | 15 Ionawr 2020 |